



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhaglen Dystiolaeth Polisi Pridd 2020-21

**Dosbarthiadau tyfiant
glaswellt yng Nghymru**

30 Tachwedd 2020

Cod yr Adroddiad: SPEP2021-20/01



Nodiadau Cyffredinol ADAS

Rhif y Prosiect: SPEP2020-21/01

Teitl: Dosbarthiadau tyfiant glaswellt yng Nghymru

Cleient: Llywodraeth Cymru; Polisi Defnydd Tir Amaethyddol a Phridd, Is-adran y Tir, Natur a Choedwigaeth, Adran Materion Gwledig

Dyddiad: 30 Tachwedd 2020

Statws: Terfynol

Awduron: Ben Hockridge, ADAS Wolverhampton, Coxwell Avenue, Stafford Road, Wolverhampton, WV10 9RT, Dr Alison Rollett, ADAS Gleadthorpe, Netherfield Lane, Meden Vale, Nottinghamshire, NG20 9PD a John Williams, ADAS Boxworth, Battlegate Road, Boxworth, Cambridgeshire, CB23 4NN.

Dyddiad: 30 Tachwedd 2020

Adolygydd technegol: John Williams

Dyddiad: 27 Tachwedd 2020

Rheolwr Prosiect ADAS: Alison Rollett

Dyddiad: 30 Tachwedd 2020

Rheolwr Prosiect Llywodraeth Cymru: Arwel Williams

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. This document is also available in English.

OGI© Hawlfraint y Goron 2020

WG41030

ISBN Digidol: 978-1-80082-238-2

Cynnwys

| | | |
|-----|---|----|
| 1 | Cyflwyniad..... | 2 |
| 2 | Amcanion | 2 |
| 3 | Dosbarth tyfiant glaswellt..... | 2 |
| 3.1 | Cyfrifo dosbarth tyfiant glaswellt..... | 3 |
| 3.2 | Dŵr pridd sydd ar gael | 6 |
| 3.3 | Glawiad yr haf | 8 |
| 3.4 | Uchder..... | 10 |
| 3.5 | Llinell sylfaen..... | 11 |
| 3.6 | Senarios isel UKCP18..... | 12 |
| 3.7 | Senarios canolig UKCP18..... | 13 |
| 3.8 | Senarios uchel UKCP18 | 14 |
| 4 | Cyfeiriadau | 20 |

1 Cyflwyniad

- Mae amaethyddiaeth Cymru yn cael ei ddominyddu gan laswelltir (tir glas parhaol, tir pori garw a glaswelltir dros dro) sy'n gallu bod wedi'i wella, yn naturiol neu'n lled-naturiol gyda dulliau rheoli cyferbyniol (h.y. lefel stocio a threfn dorri). Yn 2018, o'r 1.9 miliwn hectar o arwynebedd amaethyddol yng Nghymru, roedd 89% (1.7 miliwn hectar) yn laswellt, yn cynnwys 1.1 miliwn hectar o dir glas parhaol (yr amcangyfrifwyd bod glaswelltir lled-naturiol caeedig yn cwmpasu 25-30,000 hectar ohono (CNC, 2016)), tua 430,000 hectar o dir pori garw a thua 154,000 hectar o laswelltir dros dro (h.y. o dan 5 oed) (Llywodraeth Cymru, 2019).
- Dangosodd allbynnau o Brosiect CSCP (Llywodraeth Cymru 2018-2020), gan ddefnyddio rhagamcaniadau hinsawdd diweddaraf UKCP18, yn glir y gallai perygl sychder ddod yn gyfyngiad mawr ar allu tir ac addasrwydd cnydau ar ôl 2050. Fodd bynnag, ni ystyriwyd yr effaith ar gynhyrchiant glaswellt (maint ac ansawdd) fel rhan o brosiect CSCP.
- Defnyddir dosbarth tyfiant glaswellt yng Nghanllaw Rheoli Maethynnau AHDB (RB209) i asesu'r potensial ar gyfer maint cnwd glaswellt, sy'n elfen hanfodol ar gyfer pennu faint o faethynnau sydd eu hangen ar gyfer y tyfiant glaswellt gorau posibl. Defnyddir glawiad yr haf (Ebrill i Fedi), y math o bridd (fel y'i diffinnir gan RB209) ac uchder i neilltuo dosbarthiadau tyfiant glaswellt.


2 Amcanion

- Mae'r amodau hinsoddol presennol yng Nghymru (h.y. tymereddau cynnes a lefelau glawiad uchel yr haf) yn ffafriol iawn i gynhyrchu glaswellt ar gyfer pori a thorri. Gan ddefnyddio data gan Lywodraeth Cymru, rydym wedi asesu effaith y newid yn yr hinsawdd ar ddsbarthiad Dosbarthiadau Tyfiant Glaswellt RB209 yng Nghymru i gynhyrchu'r mapiau canlynol:
 - Map o'r Dosbarth Tyfiant Glaswellt (rhastr 50m) gan ddefnyddio set ddata llinell sylfaen ALC
 - Map o'r Dosbarth Tyfiant Glaswellt (rhastr 50m) ar gyfer senarios isel, canolig ac uchel 2020
 - Map o'r Dosbarth Tyfiant Glaswellt (rhastr 50m) ar gyfer senarios isel, canolig ac uchel 2050
 - Map o'r Dosbarth Tyfiant Glaswellt (rhastr 50m) ar gyfer senarios isel, canolig ac uchel 2080

3 Dosbarth tyfiant glaswellt

- Y dosbarth tyfiant glaswellt (GGC) yw gallu safle i ymateb i nitrogen, sy'n dibynnu ar y math o bridd a glawiad (Ffigur 1). Ar safleoedd GGC da/da iawn, mae glastiroedd sy'n cael eu dominyddu gan rywogaethau glaswellt cynhyrchiol yn ymateb yn dda i gynnydd yn y cyflenwad N, gan fod draeniad pridd, tymheredd a chyflenwad dŵr yn ffafriol i dyfiant. Ar safleoedd GGC gwael/gwael iawn, nid yw glaswellt yn ymateb cystal i'r defnydd o N oherwydd ffactorau fel draenio gwael neu dymereddau oerach (oherwydd agwedd neu uchder) (AHDB, 2020).

- Mae dosbarthiadau tyfiant glaswellt yn asesu'r risg o sychder haf ar safle a fyddai'n amharu ar dyfiant glaswellt ac maent wedi'u neilltuo ar sail glawiad yr haf, y dŵr pridd sydd ar gael (yn seiliedig ar y math o bridd) ac uchder.



Ffigur 1. Maint cnwd deunydd sych glaswellt dangosol yn ôl Dosbarth Tyfiant Glaswellt (GGC). Ffynhonnell AHDB, 2020.

3.1 Cyfrifo dosbarth tyfiant glaswellt

- Daw Tabl 1, isod o RB209 ac mae'n rhoi syniad o'r potensial i dyfu glaswellt mewn tymor cyfartalog, yn seiliedig ar y risg o sychder haf. Defnyddiwyd y canllawiau yn Nhabl 1 i benderfynu ar y dosbarthiadau tyfiant glaswellt ar gyfer Cymru. Yn gryno, i gyfrifo dosbarth tyfiant glaswellt, dyrannwyd y data i dri dosbarth dŵr pridd oedd ar gael (isel, canolig ac uchel) yn seiliedig ar Dabl 2 isod o RB209 ac yna cafodd ei neilltuo ymhellach i ddosbarthiadau glawiad (isel: ≤ 300 mm; canolig: 300-400 mm ac uchel > 400 mm). Ar gyfer safleoedd uwchlaw 300 m o uchder, cafodd dosbarth tyfiant glaswellt ei leihau un dosbarth i adlewyrchu effaith tymereddau is ar dyfiant.

Tabl 1. Pennu'r Dosbarth Tyfiant Glaswellt (Ffynhonnell: AHDB, 2020).


| Soil available water | Soil types* | Rainfall [®] (April to September) | | |
|----------------------|---|--|------------|-------------|
| | | up to 300 mm | 300–400 mm | over 400 mm |
| Low | Light sand soils, gravels and shallow soils (not over chalk) | Very poor | Poor | Average |
| Medium | Medium soils, deep clay soils, and shallow soils over chalk | Poor | Average | Good |
| High | Deep silty soils, peaty soils and soils with groundwater (e.g. river meadows) | Average | Good | Very good |

Tabl 2. Aseiad o gategori pridd (Ffynhonnell: AHDB, 2020)


| Soil category | Description of soil types within category | Properties |
|-------------------|---|---|
| Light sand soils | Soils that are sand, loamy sand or sandy loam to 40 cm depth and are sand or loamy sand between 40–80 cm, or over sandstone rock. | Soils in this category have poor water-holding capacity and retain little nitrogen. |
| Shallow soils | Soils over impermeable subsoils and those where the parent rock (chalk, limestone or other rock) is within 40 cm of the soil surface. Sandy soils developed over sandstone rock should be regarded as light sand soils. | Soils in this category are less able to retain or supply nitrogen at depth. |
| Medium soils | Mostly medium-textured mineral soils that do not fall into any other soil category. These include sandy loams over clay deep loams and silty or clayey topsoils that have sandy or loamy subsoils. | Soils in this category have moderate ability to retain nitrogen and allow average rooting depth. |
| Deep clayey soils | Soils with predominantly sandy clay loam, silty clay loam, clay loam, sandy clay, silty clay or clay topsoil overlying clay subsoil to more than 40 cm depth. Deep clayey soils normally need artificial field drainage. | Soils in this category are able to retain more nitrogen than lighter soils. |
| Deep silty soils | Soils of sandy silt loam, silt loam or silty clay loam textures to 100 cm depth or more. Silt soils formed on marine alluvium, warp soils (river alluvium) and brickearth soils are in this category. Silty clays of low fertility should be regarded as other mineral soils. | Soils in this category are able to retain more nitrogen than lighter soils and allow rooting to greater depth. |
| Organic soils | Soils that are predominantly mineral but with between 10–20% organic matter to depth. These can be distinguished by darker colouring that stains the fingers black or grey. | Soils in this category are able to retain more nitrogen than lighter soils and have higher nitrogen mineralisation potential. |
| Peat soils | Soils that contain more than 20% organic matter derived from sedge or similar peat material. | Soils in this category have very high nitrogen mineralisation potential. |

3.2 Dŵr pridd sydd ar gael

- Mae ffigurau 2 a 3 yn dangos y dosbarthiadau dŵr pridd sydd ar gael a gwedd pridd ar gyfer Cymru. Ardaloedd dŵr pridd sydd ar gael canolig ac uchel sy'n dominyddu, gydag ardaloedd dŵr pridd sydd ar gael isel yn gysylltiedig ag ardaloedd â mathau o bridd tywodlyd.




Ffigur 2. Dosbarthiadau dŵr pridd sydd ar gael (yn seiliedig ar grwpiau pridd RB209 yn Nhabl 2) ar gyfer Cymru




Ffigur 3. Gweadau pridd yng Nghymru

3.3 Glawiad yr haf

- Mae Ffigur 4 yn dangos glawiad cyfartalog yr haf (Ebrill i Fedi) yng Nghymru ar gyfer y data llinell sylfaen; mae'r rhan fwyaf o'r ardaloedd yn y categori 401-750 mm, sy'n golygu bod mwyafrif y wlad yn y dosbarth uchaf ar gyfer glawiad gyda risg isel o sychder haf (Ffigur 5).




Ffigur 4. Glawiad cyfartalog llinell sylfaen yr haf (Ebrill i Fedi)



Ffigur 5. Dosbarthiadau glawiad llinell sylfaen yr haf (Ebrill i Fedi) (yn seiliedig ar grwpiau RB209 yn Nhabl 1).

3.4 Uchder


- Mae Ffigur 6 yn nodi ardaloedd yng Nghymru lle cafwdd y dosbarthiadau tyfiant glaswellt eu hisraddio o un dosbarth ar gyfer safleoedd dros 300 m.



Ffigur 6. Ardaloedd o Gymru gydag uchder >300 m

3.5 Llinell sylfaen

- Mae Ffigur 7 yn dangos y dosbarthiadau tyfiant glaswellt ar gyfer y senario llinell sylfaen. Mae'r rhan fwyaf o Gymru yn y dosbarth da (61%) neu ganolig (21%), gyda rhai ardaloedd da iawn (16%) ac ardaloedd bach iawn o dyfiant glaswellt gwael (2%).




Figur 7. Dosbarthiadau tyfiant glaswellt llinell sylfaen (gwael iawn, gwael, canolig, da a da iawn).

3.6 Senarios isel UKCP18

- Mae Ffigur 8 yn dangos y ganran o Gymru ym mhob un o'r pum dosbarth tyfiant glaswellt (o wael iawn i dda iawn) ar gyfer y llinell sylfaen o gymharu â senarios isel UKCP18 2020, 2050 a 2080. O dan y ffigur mae'r newid canrannol yn y dosbarth tyfiant glaswellt o gymharu â'r llinell sylfaen ar gyfer 2020, 2050 a 2080 (Tabl 3).
- O gymharu â'r llinell sylfaen, mae cynnydd cyfrannol mawr iawn yn yr ardal a ddsberthir fel un wael iawn, sy'n cynyddu o 2 ha yn y llinell sylfaen i 16,367 ha yn senario isel 2080 (Tabl 6). Fodd bynnag, mae'r ardal a ddsberthir fel un dlawd iawn bob amser <1% o gyfanswm yr ardal. Yn yr un modd, mae cynnydd mawr yn yr ardal a ddsberthir fel un wael dros amser fel y bydd 11% o arwynebedd y tir yn cael ei ddsbarthu fel tir gwael erbyn 2080 o gymharu â 2% yn y llinell sylfaen. Mae cyfran y tir sy'n cael ei ddsbarthu fel tir cyfartalog yn cynyddu o 21% yn y llinell sylfaen i 32% erbyn 2080. Ar y llaw arall, mae cyfran y tir sy'n dda yn gostwng o 61% yn y llinell sylfaen i 46% erbyn 2080 ac, ar gyfer tir da iawn, mae'n gostwng o 16% i 10%.

Grass growth classes: UKCP18 low scenarios



Ffigur 8. Dosbarth tyfiant glaswellt (% o gyfanswm yr ardal) ar gyfer senarios isel UKCP18 2020, 2050 a 2080

Tabl 3. Newid canrannol yn y dosbarth tyfiant glaswellt (o gymharu â'r llinell sylfaen) ar gyfer senarios isel UKCP18 2020, 2050 a 2080.


| Dosbarth Tyfiant | 2020 L (% o'r llinell sylfaen) | 2050 L (% o'r llinell sylfaen) | 2080 L (% o'r llinell sylfaen) |
|------------------|--------------------------------|--------------------------------|--------------------------------|
| Gwael iawn | 5,750 | 623,900 | 1,091,150 |
| Gwael | 173 | 473 | 615 |
| Cyfartalog | 131 | 152 | 156 |
| Da | 92 | 80 | 75 |
| Da iawn | 83 | 67 | 61 |

- Mae Ffigur 11 yn dangos dosbarthiad y dosbarthiadau tyfiant glaswellt yng Nghymru a ragwelir gan senarios isel UKCP18 ar gyfer 2020, 2050 a 2080.

3.7 Senarios canolig UKCP18

- Mae Ffigur 9 yn dangos y ganran o Gymru ym mhob un o'r pum dosbarth tyfiant glaswellt (o wael iawn i dda iawn) ar gyfer y llinell sylfaen o gymharu â senarios canolig UKCP18 2020, 2050 a 2080. O dan y ffigur mae'r newid canrannol yn y dosbarth tyfiant glaswellt o gymharu â'r llinell sylfaen ar gyfer 2020, 2050 a 2080 (Tabl 4).
- O gymharu â'r llinell sylfaen, mae cynnydd cyfrannol mawr iawn yn yr ardal a ddsberthir fel un wael iawn, sy'n cynyddu o 2 ha yn y llinell sylfaen i 18,920 ha yn senario isel 2080. Fodd bynnag, mae'r ardal a ddsberthir fel un wael iawn yn <1% o gyfanswm yr ardal bob amser. Yn yr un modd, mae cynnydd mawr yn yr ardal a ddsberthir fel un wael dros amser (Tabl 6) fel y bydd 12% o arwynebedd y tir yn cael ei ddsbarthu fel tir gwael erbyn 2080 o gymharu â 2% yn y llinell sylfaen. Mae cyfran y tir sy'n cael ei ddsbarthu fel tir cyfartalog yn cynyddu o 21% yn y llinell sylfaen i 32% erbyn 2080. Ar y llaw arall, mae cyfran y tir sy'n dda yn gostwng o 61% yn y llinell sylfaen i 45% erbyn 2080 ac, ar gyfer tir da iawn, mae'n gostwng o 16% i 10%.

Grass growth classes: UKCP18 medium scenarios



Ffigur 9. Dosbarth tyfiant glaswellt (% o gyfanswm yr ardal) ar gyfer senarios canolig UKCP18 2020, 2050 a 2080

Tabl 4. Newid canrannol yn y dosbarth tyfiant glaswellt (o gymharu â'r llinell sylfaen) ar gyfer senarios canolig UKCP18 2020, 2050 a 2080.

| Dosbarth Tyfiant | 2020 M (% o'r llinell sylfaen) | 2050 M (% o'r llinell sylfaen) | 2080 M (% o'r llinell sylfaen) |
|------------------|--------------------------------|--------------------------------|--------------------------------|
| Gwael iawn | 5,267 | 620,400 | 1,261,300 |
| Gwael | 171 | 471 | 655 |
| Cyfartalog | 130 | 152 | 157 |
| Da | 92 | 80 | 74 |


| | | | |
|---------|----|----|----|
| Da iawn | 83 | 67 | 59 |
|---------|----|----|----|

- Mae Ffigur 12 yn dangos dosbarthiad y dosbarthiadau tyfiant glaswellt yng Nghymru a ragwelir gan senarios canolig UKCP18 ar gyfer 2020, 2050 a 2080.

3.8 Senarios uchel UKCP18

- Mae Ffigur 10 yn dangos y ganran o Gymru ym mhob un o'r pum dosbarth tyfiant glaswellt (o wael iawn i dda iawn) ar gyfer y llinell sylfaen o gymharu â senarios uchel UKCP18 2020, 2050 a 2080. O dan y ffigur mae'r newid canrannol yn y dosbarth tyfiant glaswellt o gymharu â'r llinell sylfaen ar gyfer 2020, 2050 a 2080 (Tabl 5).
- O gymharu â'r llinell sylfaen, mae cynnydd cyfrannol mawr iawn yn yr ardal a ddsberthir fel un wael iawn, sy'n cynyddu o 2 ha yn y llinell sylfaen i 32,818 ha yn senario uchel 2080. Fodd bynnag, mae'r ardal a ddsberthir fel un wael iawn yn dal i fod yn <1% o gyfanswm yr ardal. Yn yr un modd, mae cynnydd mawr yn yr ardal a ddsberthir fel un wael dros amser fel y bydd 15% o arwynebedd y tir erbyn 2080 yn cael ei ddsbarthu fel tir gwael o gymharu â 2% yn y llinell sylfaen. Mae cyfran y tir sy'n cael ei ddsbarthu fel tir cyfartalog yn cynyddu o 21% yn y llinell sylfaen i 33% erbyn 2080. Ar y llaw arall, mae cyfran y tir sy'n dda yn gostwng o 61% yn y llinell sylfaen i 42% erbyn 2080 ac, ar gyfer tir da iawn, mae'n gostwng o 16% i 8% (Tabl 6).

Grass growth classes: UKCP18 high scenarios



Ffigur 10. Dosbarth tyfiant glaswellt (% o gyfanswm yr ardal) ar gyfer senarios uchel UKCP18 2020, 2050 a 2080


Tabl 5. Newid canrannol yn y dosbarth tyfiant glaswellt (o gymharu â'r llinell sylfaen) ar gyfer senarios uchel UKCP18 2020, 2050 a 2080.

| Dosbarth Tyfiant | 2020 H (% o'r llinell sylfaen) | 2050 H (% o'r llinell sylfaen) | 2080 H (% o'r llinell sylfaen) |
|------------------|--------------------------------|--------------------------------|--------------------------------|
| Gwael iawn | 10,200 | 830,633 | 2,187,867 |


| | | | |
|------------|-----|-----|-----|
| Gwael | 179 | 540 | 832 |
| Cyfartalog | 132 | 154 | 161 |
| Da | 92 | 77 | 68 |
| Da iawn | 82 | 64 | 51 |

- Mae Ffigur 13 yn dangos dosbarthiad y dosbarthiadau tyfiant glaswellt yng Nghymru a ragwelir gan senarios uchel UKCP18 ar gyfer 2020, 2050 a 2080.


a. isel 2020



b. isel 2050




c. isel 2080




Figur 11. Dosbarthiadau tyfiant glaswellt ar gyfer senarios isel UKCP18 ar gyfer a. 2020, b. 2050 ac c. 2080


a. 2020



b. 2050




c. 2080




Figur 12. Dosbarthiadau tyfiant glaswellt ar gyfer senarios canolog UKCP18 ar gyfer a. 2020, b. 2050 ac c. 2080


a. 2020



b. 2050



c. 2080



Ffigur 13. Dosbarthiadau tyfiant glaswellt ar gyfer senarios uchel UKCP18 ar gyfer a. 2020, b. 2050 ac c. 2080

Tabl 6. Ardal dosbarth tyfiant glaswellt (hectar-ha) a chyfran cyfanswm yr ardal (%) ar gyfer y llinell sylfaen, UKCP18 2020, 2050 a 2080, senarios a. isel, b. canolig ac c. uchel

a. Isel

| Dosbarth tyfiant glaswellt | Llinell sylfaen | | 2020 | | 2050 | | 2080 | |
|----------------------------|-----------------|------|-----------|------|-----------|------|---------|------|
| | Ha | % | Ha | % | Ha | % | Ha | % |
| Gwael iawn | 2 | 0.00 | 86 | 0.00 | 9,359 | 0.45 | 16,367 | 0.45 |
| Gwael | 37,831 | 2 | 65,401 | 3 | 178,941 | 9 | 232,589 | 9 |
| Cyfartalog | 425,906 | 21 | 556,483 | 27 | 646,813 | 31 | 664,428 | 31 |
| Da | 1,273,996 | 61 | 1,172,870 | 57 | 1,015,191 | 49 | 956,946 | 49 |
| Da iawn | 337,931 | 16 | 280,872 | 14 | 225,409 | 11 | 205,382 | 11 |

b. Canolig

| Dosbarth tyfiant glaswellt | Llinell sylfaen | | 2020 | | 2050 | | 2080 | |
|----------------------------|-----------------|------|-----------|------|-----------|------|---------|------|
| | Ha | % | Ha | % | Ha | % | Ha | % |
| Gwael iawn | 2 | 0.00 | 79 | 0.00 | 9,306 | 0.45 | 18,920 | 0.91 |
| Gwael | 37,831 | 2 | 64,796 | 3 | 178,248 | 9 | 247,905 | 12 |
| Cyfartalog | 425,906 | 21 | 554,791 | 27 | 646,503 | 31 | 669,814 | 32 |
| Da | 1,273,996 | 61 | 1,174,515 | 57 | 1,016,021 | 49 | 940,250 | 45 |
| Da iawn | 337,931 | 16 | 281,531 | 14 | 225,635 | 11 | 198,824 | 10 |

c. Uchel

| Dosbarth tyfiant glaswellt | Llinell sylfaen | | 2020 | | 2050 | | 2080 | |
|----------------------------|-----------------|------|-----------|------|---------|------|---------|------|
| | Ha | % | Ha | % | Ha | % | Ha | % |
| Gwael iawn | 2 | 0.00 | 153 | 0.01 | 12,460 | 0.60 | 32,818 | 1.58 |
| Gwael | 37,831 | 2 | 67,866 | 3 | 204,396 | 10 | 314,607 | 15 |
| Cyfartalog | 425,906 | 21 | 563,367 | 27 | 657,565 | 32 | 684,368 | 33 |
| Da | 1,273,996 | 61 | 1,166,236 | 56 | 986,117 | 48 | 871,488 | 42 |
| Da iawn | 337,931 | 16 | 278,091 | 13 | 215,174 | 10 | 172,430 | 8 |

4 Cyfeiriadau

AHDB (2020). Nutrient management guide (RB209). Section 3 Grass and forage crops. Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth.

Cyfoeth Naturiol Cymru (2016) *Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR)*: Aseiad o Reolaeth Gynaliadwy o Adnoddau Naturiol. Atodiad Technegol ar gyfer Pennod 3. Cyfoeth Naturiol Cymru.

Llywodraeth Cymru (2019) *Amaethyddiaeth yng Nghymru*. Llywodraeth Cymru